

EISTEDDFOD YR URDD CAERDYDD A'R FRO 2019

Rhif 84 – Deuawd Cerdd Dant Bl 7, 8 a 9
geiriau – Hen Luniau'r Teulu – John Gwilym Jones



Cainc: Coetmor, Menai Williams (1122)
Ceinciau'r Dyffryn a Mwy – Cymdeithas Cerdd Dant Cymru

Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod

HEN LUNIAU'R TEULU

Wrth ddisgwyl am rywun arall
Y daw o hyd i mi,
Rhyw gyfrol gwaelod-drورياu
Ag oes rhwng ei chloriau hi.

Ynddi mae hen yn ifanc,
Ac ifanc yn swrth a syn,
Ac amser yn melynu'u
Hwynebau du a gwyn.

Ond rhaid i mi gael cwmni
I grwydro o lun i lun,
A phwy? a phle mae hynna?
Yw'r holi uwch llawer un.

Ac fel bydd enw'n cydio
Wrth enw ac atgof brau
Daw'r lluniau'n llawn adnabod
Cyn bydd y clawr yn cau.